TGAU

# CBAC TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg (Dwyradd yn unig)

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

Uned 6: Cyfleu Ystyr
Addysgu o 2025
Dyfarnu o 2027



Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

Cynnwys


| | |
|---|---|
| Papur cwestiynau | 1 |
| Adran A – Stori Fer – Yr Wy Caryl Lewis | 2 |
| Cynllun marcio | 13 |
| Adran A – Stori Fer – Torri Arferiad Gwenno Mair Davies | 24 |
| Cynllun marcio | 35 |
| Adran A – Stori Fer – Plant Dylan Iorwerth | 43 |
| Cynllun marcio | 57 |



**Hawlfraint**

© WJEC CBAC Limited 2024.





© WJEC CBAC Ltd 2024.

| Cyfenw: | Rhif y ganolfan | Rhif ymgeisydd |
|---|---|---|
| Enw(au) cyntaf: | | |

**TGAU**

**3030N6**

**??DYDD ?? ?? 20?? – ??**

# TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg
# Deunydd Asesu Enghreifftiol Uned 1

## Uned 6 – Cyfleu Ystyr

1 awr 30 munud
**DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL**

**Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr**
Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.
Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.
Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd priodol yn y llyfryn hwn.
Os nad oes digon o le, defnyddiwch y tudalennau ychwanegol yng nghefn y llyfryn, gan wneud yn siŵr eich bod chi'n rhoi'r rhif cywir ar y cwestiwn.
Ni allwch ddefnyddio geiriaduron na thestunau gosod.
Awgrymir eich bod yn treulio'ch amser gan ddilyn y canllawiau canlynol:

**Adran A – Stori Fer (40 marc)**
- tua 50 munud

**Adran B – Cymharu Testunau (20 marc)**
- tua 10 munud yn cynllunio a thua 30 munud yn ysgrifennu.

**Gwybodaeth i ymgeiswyr**
Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
Mae cyfanswm o 60 marc ar gael.
Cofiwch feddwl yn ofalus am sut rydych chi'n defnyddio eich amser.
Rhaid i'ch ymatebion fod yn glir, yn gywir ac wedi'u cyflwyno'n dda.



© WJEC CBAC Ltd 2024.

## Uned 6 – Cyfleu Ystyr

## Arholiad 1 awr 30 munud

## Adran A – Stori Fer – Yr Wy Caryl Lewis

Arholwr yn unig

**1**. Mae cwestiynau'r adran hon yn seiliedig ar **Yr Wy** Caryl Lewis.

Rhoddir marciau am safon eich iaith yng nghwestiynau 02-05.

Atebwch **bob** cwestiwn yn yr adran hon.

**0 1** Nodwch **dri** pheth yr oedd yn rhaid i'r trigolion eu gwneud yn y stori er mwyn paratoi i adael. [3]

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................



© WJEC CBAC Ltd 2024.

**0 2** Trafodwch y darlun o'r tad a geir yn y stori. [7]

Arholwr yn unig

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................



© WJEC CBAC Ltd 2024.

**0 3** Darllenwch y dyfyniad isod: [10]

Arholwr yn unig

Cerddodd allan i'r ffordd fawr a dilynodd y clawdd wrth i'r lleuad ddechrau goleuo'i lwybr. Doedd dim byd i'w glywed heblaw'r gwynt yn goglais y cloddiau weithiau a sŵn ei esgidiau trymion yn taro'r ffordd. Roedd y cwm yn agored o'i gwmpas a'r llwybr yn hen gyfarwydd iddo. Roedd ei fochau'n oeri. Tynnodd ei law gynnes oddi ar yr Wy a'i gwasgu'n dynn ar ei wyneb.

Yn y cloddiau roedd ewyn gwyn blodau'r ysgawen wedi hen droi'n ddyrneidiau o eirin tywyll ac roedd yna glymau pigog o fwyar duon yn cleisio'n ddu ar hyd y clawdd. Clywodd sŵn ci'n cyfarth yn y pellter a theimlai ofn yn crynhoi. Pan fyddai'n un bach, y dydd heb olau fyddai'r nos iddo. Ond erbyn hyn, ac yntau ychydig yn hŷn, roedd pethau'n wahanol wrth i fwganod ddechrau codi'u pennau yn y cloddiau. Ceisiodd ganolbwyntio ar ei gamau a gwthiodd yr Wy cynnes i fyny un llawes a'i ddilyn yn ofalus a'i law arall. Roedd y lleuad a'r gwynt yn cryfhau. Dechreuodd ei galon guro'n drymach. Doedd dim sôn am neb ar y ffordd - hyd yn oed wrth agosáu at y pentref. Ceisiodd gysuro'i hun y byddai yng nghegin ei fodryb cyn pen dim. Roedd ei bengliniau'n oer.

Cai'r dail eu chwythu ar hyd ei lwybr a byseddai'r awel ysgafn ei wallt. Arafodd ei gamau . Roedd y capel yn y pellter ac wrth ei ymyl y fynwent a'i wal o gerrig. Byddai rhai plant yn croesi i ochr draw'r ffordd wrth gerdded heibio iddi yn y nos. Ond nid fe. Gafaelodd yn dynnach am yr Wy cynnes. Roedd y lleuad yn goleuo'r cerrig beddi a'r rheiny gefngefn fel petai' nhw'n dibynnu ar ei gilydd. Toddai sŵn ei gamau yn un a'r tawelwch. Erbyn hyn roedd yr Wy yn dechrau oeri.

Sut mae'r awdur yn cyfleu y teimlad o ofn yn y darn hwn?

Dylech gyfeirio at dechnegau arddull penodol.

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................



© WJEC CBAC Ltd 2024.

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................



© WJEC CBAC Ltd 2024.

Arholwr yn unig

**0 4** Esboniwch pam, yn eich barn chi, mae'r bachgen yn gorfod mynd i aros gyda'i deulu dros nos. Dylech gyfeirio at ddarnau penodol. [10]

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................



© WJEC CBAC Ltd 2024.

**0 5** Pa mor effeithiol yw'r teitl **Yr Wy** yn eich barn chi? [10]
Dylech gyfeirio at ddarnau penodol.

Arholwr yn unig

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................

............................................................................................................



© WJEC CBAC Ltd 2024.

## Adran B – Cymharu Testunau

Darllenwch y darn isod gan Mabli Siriol Jones, Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith. Yna fe ddylech ateb cwestiwn 06 ar y dudalen nesaf sy'n gofyn i chi gymharu'r darn gyda **Yr Wy.**

**Darn darllen gan Mabli Siriol Jones, Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith - #NidYwCymruArWerth!**

**#NidYwCymruArWerth!**

gan Mabli Siriol Jones, Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith




Mae gan bawb yr hawl i gartref yn eu cymuned.

Ond ar hyn o bryd, mae pobl ifanc ar draws Cymru'n cael trafferth fforddio byw yn eu cymuned. Mae prisiau tai a rhent wedi cynyddu i'r fath raddau fel eu bod y tu hwnt i gyrraedd pobl ar gyflogau cyffredin.

Mae hyn o ganlyniad i'r ffaith bod llywodraethau dros y degawdau wedi trin tai fel eiddo i wneud elw, yn lle cartrefi. Mae'r canlyniadau wedi bod yn drychinebus i bobl gyffredin Cymru, ein cymunedau a'r Gymraeg – ac maen nhw'n gwaethygu.

Mae Shelter Cymru'n amcangyfrif bod 1 ymhob 3 o bobl yng Nghymru yn cael eu heffeithio gan yr argyfwng tai. Mae'n broblem benodol i bobl ifanc, gyda'r genhedlaeth iau yn cael eu galw'n Genhedlaeth Rhent am nad ydynt yn gallu fforddio prynu tŷ. Maen nhw'n gorfod gwario rhan fawr o'u cyflog ar rent, gan adael llai o arian i bethau eraill mewn bywyd a chynilo ar gyfer y dyfodol.

Dw i'n dod o ardal Grangetown yng Nghaerdydd lle mae prisiau tai wedi ffrwydro dros y blynyddoedd diwethaf. Dydy pobl ifanc a gafodd eu magu yma ddim yn gallu fforddio rhentu neu brynu. Mae'r un peth yn wir am arfordir Cymru a chymunedau gwledig. O ganlyniad, dydy pobl ifanc ddim yn gallu fforddio tŷ yn lleol ac mae nifer yn gadael – ac yn mynd â'r Gymraeg gyda nhw.

Mae rhywbeth mawr wedi mynd o'i le mewn cymdeithas lle mae gan rai pobl ddau dŷ, ac eraill yn ddigartref. Cymdeithas lle mae ein diffiniad o dŷ 'fforddiadwy' y tu hwnt i gyrraedd pobl ar gyflogau cyffredin. A chymdeithas lle gall datblygwyr a'r cyfoethog ddod i mewn i gymuned a gwneud be' bynnag maen nhw [1]moyn, dim ots am farn y bobl leol neu'r effaith arnynt.

Ond canlyniad penderfyniadau gwleidyddol yw'r rhain i gyd, nid rhywbeth [2]anochel – felly mae modd eu newid.

Mae gan Gymdeithas yr Iaith sawl cynnig am sut i fynd ati i ddatrys y broblem. Yr hyn sydd ei angen ydy ewyllys gan wleidyddion i weithredu.

Yn gyntaf oll, rydym yn galw ar y Llywodraeth i gymryd camau brys sy'n cynnwys cyflwyno trethi newydd ar dwristiaeth, ail dai ac Airbnb. Gallant fuddsoddi'r elw yn y cymunedau a thai i bobl leol. Yn ogystal, mae angen rheoli prisiau tai a rhent fel eu bod nhw'n fforddiadwy a rhoi cymorth penodol i bobl ifanc aros yn eu cymunedau.

Rhaid cofio hefyd fod yr 'hawl i fyw adra' yn fwy na thai yn unig. Mae hefyd yn golygu cyfleoedd i bobl ifanc ym mhob rhan o'r wlad, buddsoddiad mewn gwasanaethau lleol a chadw ein hysgolion bychain ar agor. Bydd yr iaith yn fyw mewn cymunedau byw.

Gyda'n gilydd mae'r grym gennym ni. Rydym ni wedi ennill sawl brwydr dros yr iaith o'r blaen, o'r arwyddion ffyrdd dwyieithog i sefydlu S4C ac addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ar bob lefel. Enillwn ni'r frwydr hon hefyd er mwyn sicrhau bod pobl ifanc Cymru yn gallu fforddio byw yn lleol, a byw trwy gyfrwng y Gymraeg.

[1]moyn – eisiau
[2]anochel – sy'n sicr o ddigwydd

© WJEC CBAC Cyf. (3000N20-1A)



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| 0 | 6 |
|---|---|

Mae **Yr Wy** a'r darn gan Mabli Sirol Jones yn trafod colli rhywbeth. Cymharwch brofiadau'r tad yn **Yr Wy** gyda phrofiadau Mabli Siriol. Cofiwch gyfeirio at ddarnau penodol o'r **ddau ddarn** yn eich ateb. [20]

Arholwr yn unig

Gwobrwyir safon eich iaith yn y cwestiwn hwn.

| Cynllun: (nid yw'r cynllun yn cael ei farcio) |
|---|
| |



© WJEC CBAC Ltd 2024.

[20]

Arholwr yn unig



© WJEC CBAC Ltd 2024.

© WJEC CBAC Ltd 2024.

**DIWEDD Y PAPUR**



© WJEC CBAC Ltd 2024.

## CYNLLUN MARCIO

### Canllawiau i arholwyr

### Egwyddorion marcio cyffredinol

- Dylid rhoi marciau cyfan bob amser (ni ddylid rhoi hanner marciau, na ffracsiynau eraill).
- Dim ond pan fydd y cwestiwn yn asesu ansawdd y sillafu, yr atalnodi a'r ramadeg yn benodol, fel y nodir yn y cynllun marcio y dylid barnu atebion yn seiliedig ar hyn. Fodd bynnag, dylai'r ystyr fod yn ddiamwys.
- Dylid rhoi marciau gan ddefnyddio'r ystod lawn o farciau yn ôl y diffiniad yn y cynllun marcio ar gyfer y cwestiwn (fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd ansawdd yr ymatebion a welir gan yr ymgeiswyr yn cyfyngu ar y defnydd o'r ystod lawn o farciau).
- Mae'r marciau sy'n cael eu rhoi yn gwbl seiliedig ar y gofynion yn ôl y diffiniad yn y cynllun marcio. Ni ddylid rhoi marciau gan ystyried trothwyon graddau na disgrifyddion graddau.

### Marcio cadarnhaol

Dylid cofio bod ymgeiswyr yn ysgrifennu o dan amodau arholiad a dylid rhoi marciau am yr hyn mae'r ymgeisydd yn ei ysgrifennu yn hytrach na mabwysiadu'r dull o'i gosbi am unrhyw hepgoriadau. Dylai fod yn bosibl i ymateb da iawn gael marciau llawn ac i ymateb gwael iawn gael marc sero. Ni ddylid tynnu marciau am ateb sy'n llai na pherffaith os yw'n bodloni meini prawf y cynllun marcio.

Dylid cymhwyso'r cynllun marcio'n fanwl gywir ar gyfer cwestiynau sy'n wrthrychol neu'n seiliedig ar bwyntiau. Dylid rhoi marciau fel y dangosir heb isrannu ymhellach.

Yn aml, mae cynlluniau marcio'n cynnwys rhestr o bwyntiau y gall ymgeiswyr eu cynnwys yn eu hatebion. Nid yw'r rhestr yn un gwbl gyflawn. Mae cynnwys *'Dylid rhoi marciau am unrhyw ymateb dilys arall'* (neu gyfarwyddyd tebyg) mewn cynlluniau marcio yn caniatáu ar gyfer amrywiadau posibl yn ymatebion ymgeiswyr. Dylid rhoi marciau am fanwl gywirdeb a pherthnasedd atebion ymgeiswyr.

Mae ymatebion enghreifftiol yn y cynlluniau marcio'n cyfleu terminoleg briodol. Fodd bynnag, onid oes gofyniad penodol o fewn cwestiwn, gellir rhoi marciau i ymgeiswyr lle bo'r ateb yn gywir ond wedi'i fynegi yn eu geiriau eu hunain.

### Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Mae cynlluniau marcio cwestiynau sy'n seiliedig ar fandiau mewn dwy ran; y cynnwys dangosol a'r grid asesu.

Mae'r cynnwys dangosol yn awgrymu'r amrywiaeth o bwyntiau a materion a allai gael eu cynnwys yn atebion yr ymgeiswyr. Gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd ymateb yr ymgeisydd. Fel y nodwyd uchod, ni fwriedir i gynnwys dangosol fod yn gynhwysfawr ac ni ddylai ymgeiswyr orfod cynnwys yr holl gynnwys dangosol i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio.



© WJEC CBAC Ltd 2024.

Fodd bynnag, i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio rhaid i ymgeisydd fodloni gofynion y band marciau uchaf. Os nad yw ymateb yn haeddu ennill marciau, hynny yw heb fod yn cynnwys unrhyw beth sy'n berthnasol i'r cynllun marcio, neu os na roddwyd ymateb, ni ddylid rhoi unrhyw farciau.

Dylid bob amser bod yn gadarnhaol wrth farcio cwestiynau gan ddefnyddio bandiau marcio. Mae hyn yn golygu bod marciau ar gyfer ymateb pob ymgeisydd yn cael eu cronni am ddangos sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth priodol: nid ydynt yn cael eu didynnu o uchafswm ar sail gwallau neu hepgoriadau.

I ddechrau, dylai arholwyr ddarllen ac anodi ateb yr ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu yn y cwestiwn hwnnw. Yna gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

**Cam 1 – Penderfynu ar y band**

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a chadarnhau p'un a yw'n cyfateb i'r disgrifyddion ar gyfer y band hwnnw. Os bodlonir y disgrifyddion ar y band isaf, dylai arholwyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifyddion yn cyfateb i'r ateb.

Os bydd ateb yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid mabwysiadu dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio ymateb yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft, os yw ateb ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o gynnwys band 3, byddai'r ateb yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at ben uchaf band 2 o ganlyniad i'r cynnwys band 3.

Ni ddylai arholwyr geisio tynnu marciau oddi ar ymgeiswyr oherwydd mân hepgoriadau mewn meysydd nad ydynt yn bwysig mewn ateb.

**Cam 2 – Penderfynu ar y marc**

Yn ystod y broses safoni (y gynhadledd farcio), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ar rinweddau pob band marciau. Yna bydd yr arholwyr yn cael enghreifftiau o atebion ym mhob band marciau mae'r Uwch Arholwr wedi rhoi marciau amdano. Dylai'r arholwyr farcio'r enghreifftiau a chymharu eu marciau â marciau'r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw ateb ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Atgoffir arholwyr y dylen nhw edrych eto ar yr ateb wrth gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc maen nhw'n eu rhoi yn briodol i'r ateb a roddwyd.



© WJEC CBAC Ltd 2024.

**Cynllun Marcio Enghreifftiol Uned 6 – Cyfleu Ystyr**

**Yr Wy – Caryl Lewis**

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Nodwch **dri** pheth yr oedd yn rhaid i'r trigolion eu gwneud yn y stori er mwyn paratoi i adael. | | | |
| | Dylid rhoi 1 marc am y pwyntiau canlynol hyd at uchafswm o 3 marc:<br>• tynnu lluniau o'r plant yn yr ysgol<br>• codi rhai cyrff o'r fynwent<br>• symud stoc o'r ffermydd<br>• tynnu eu lluniau o'r waliau a symud celfi | 3 | | 3 |

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|
| 2. | Trafodwch y darlun o'r tad a geir yn y stori. | | | |
| | Gellir sôn am nodweddion megis :<br>• Mewnblyg – er enghraifft, nid yw'n rhannu llawer efo'r mab<br>• Sensitif/Teimladwy – methu wynebu ei fab oherwydd yr hyn sydd ar fin digwydd a bod amser yn brin<br>• Ansensitif i'w fab/diffyg agosatrwydd<br>• Tawel/ Methu meddwl am eiriau addas<br>• Wedi cael bywyd anodd/profiad bywyd wedi'i lethu. | 5 | 2 | 7 |



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| Band | AA1<br>Deall ac ymateb | AA2<br>Mynegiant a chyfathrebu |
|---|---|---|
| **5** | **5 marc**<br>• dangos dealltwriaeth dreiddgar a dehongli'r cymeriad yn llawn<br>• cyfeiriadau effeithiol iawn at ddarnau penodol | **2 farc**<br>• cystrawen yr iaith yn gywir ar y cyfan<br>• brawddegau amrywiol gyda mynegiant effeithiol<br>• atalnodi a sillafu yn gywir ar y cyfan |
| **4** | **4 marc**<br>• dadansoddi a dangos dealltwriaeth dda o'r cymeriad<br>• cyfeiriadau effeithiol at ambell ddarn penodol | **1 marc**<br>• cystrawen yn wallus<br>• brawddegau wedi eu saernïo'n debyg<br>• gwallau atalnodi a sillafu amlwg |
| **3** | **3 marc**<br>• dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cymeriad<br>• ymdrech i gyfeirio at ambell ddarn penodol | |
| **2** | **2 farc**<br>• arddangos gwybodaeth am gymeriad y tad trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• prin yw'r cyfeiriadau at ddarnau penodol | |
| **1** | **1 marc**<br>• arddangos gwybodaeth elfennol am gymeriad y tad<br>• gallu cyfeirio'n elfennol at ambell ddarn penodol | |
| **0** | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|
| 3. | Darllenwch y dyfyniad isod:<br><br>Sut mae'r awdur yn cyfleu y teimlad o ofn yn y darn hwn?<br>Dylech gyfeirio at dechnegau arddull yr awdur.<br><br>Gellir cyfeirio at dechnegau arddull megis:<br>• personoli – gwynt yn goglais y cloddiau<br>• apelio at y synhwyrau – sŵn ei esgidiau trymion<br>Roedd ei fochau'n oeri<br>Sŵn ci'n cyfarth yn y pellter<br>Toddai sŵn ei gamau yn un â'r tawelwch.<br><br>• brawddeg fer – Dechreuodd ei galon guro'n drymach.<br>Arafodd ei gamau. | | | |
| | | 5 | 5 | 10 |

| Band | AA1<br>Deall ac ymateb | AA2<br>Mynegiant a chyfathrebu |
|---|---|---|
| **5** | **5 marc**<br>• dadansoddi'r arddull yn dreiddgar<br>• gwerthuso effaith yr arddull yn drylwyr | **5 marc**<br>• gwaith trefnus wedi ei gynllunio yn effeithiol<br>• cystrawen yr iaith yn gywir iawn<br>• brawddegau amrywiol gyda mynegiant effeithiol<br>• cydlyniant yn y gwaith<br>• atalnodi a sillafu yn gywir iawn |
| **4** | **4 marc**<br>• dadansoddi'r arddull yn dda<br>• gwerthuso effaith yr arddull yn dda | **4 marc**<br>• gwaith trefnus yn dangos ôl cynllunio<br>• cystrawen yr iaith yn gywir ar y cyfan<br>• brawddegau amrywiol gyda mynegiant eglur<br>• gwaith eithaf cydlynus<br>• atalnodi a sillafu yn gywir ar y cyfan |
| **3** | **3 marc**<br>• dadansoddi'r arddull yn foddhaol<br>• gwerthuso effaith yr arddull yn foddhaol | **3 marc**<br>• gwaith wedi ei drefnu mewn paragraffau<br>• cystrawen yr iaith yn eithaf cywir<br>• amrywio dechrau brawddegau<br>• dilyniant yn y gwaith<br>atalnodi a sillafu yn amrywiol ac ansicr |



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| | | |
|---|---|---|
| **2** | **2 farc**<br>• prin yw'r dadansoddi arddull a geir<br>• peth ymdrech i werthuso effaith yr arddull | **2 farc**<br>• gwaith mewn paragraffau ond dim trefn<br>• cystrawen yr iaith yn weddol gywir<br>• brawddegau syml i gyfleu syniadau<br>• ymdrech i adeiladu'r gwaith mewn dilyniant<br>• atalnodi a sillafu yn amrywiol ac ansicr |
| **1** | **1 marc**<br>• dadansoddiad syml o'r arddull<br>• gwerthuso syml ac arwynebol o effaith yr arddull. | **1 marc**<br>• dim paragraffau yn y gwaith<br>• cystrawen yn wallus<br>• brawddegau wedi eu saernïo'n debyg<br>• dim trefn i'r gwaith<br>• gwallau atalnodi a sillafu amlwg |
| **0** | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|
| 4. | Esboniwch pam, yn eich barn chi, mae'r bachgen yn gorfod mynd i aros gyda'i deulu dros nos?<br><br>Dylech gyfeirio ar ddarnau penodol. | | | |
| | | 5 | 5 | 10 |

| Band | AA1<br>Deall ac ymateb | AA2<br>Mynegiant a chyfathrebu |
|---|---|---|
| 5 | **5 marc**<br>• esbonio'n llawn bod y tad a'r mab ar fin gadael Capel Celyn, ac nad yw'r tad am i'r mab orfod gweld hyn yn digwydd<br>• cyfeiriadau penodol a chwbl berthnasol | **5 marc**<br>• gwaith trefnus wedi ei gynllunio yn effeithiol<br>• cystrawen yr iaith yn gywir iawn<br>• brawddegau amrywiol gyda mynegiant effeithiol<br>• cydlyniant yn y gwaith<br>• atalnodi a sillafu yn gywir iawn |
| 4 | **4 marc**<br>• esbonio bod y tad a'r mab ar fin gadael Capel Celyn, ac nad yw'r tad am i'r mab orfod gweld hyn yn digwydd<br>• cyfeiriadau eithaf penodol a pherthnasol | **4 marc**<br>• gwaith trefnus yn dangos ôl cynllunio<br>• cystrawen yr iaith yn gywir ar y cyfan<br>• brawddegau amrywiol gyda mynegiant eglur<br>• gwaith eithaf cydlynus<br>• atalnodi a sillafu yn gywir ar y cyfan |
| 3 | **3 marc**<br>• esbonio bod y tad a'r mab ar fin gadael Capel Celyn, ac nad yw'r tad am i'r mab fod yno<br>• peth cyfeiriadau penodol | **3 marc**<br>• gwaith wedi ei drefnu mewn paragraffau<br>• cystrawen yr iaith yn eithaf cywir<br>• amrywio dechrau brawddegau<br>• dilyniant yn y gwaith<br>• atalnodi a sillafu yn amrywiol ac ansicr |
| 2 | **2 farc**<br>• esbonio'n syml nad yw'r tad am i'r mab fod yn y tŷ<br>• prin yw'r cyfeiriadau penodol | **2 farc**<br>• gwaith mewn paragraffau ond dim trefn<br>• cystrawen yr iaith yn weddol gywir<br>• brawddegau syml i gyfleu syniadau<br>• ymdrech i adeiladu'r gwaith mewn dilyniant<br>• atalnodi a sillafu yn amrywiol ac ansicr |
| 1 | **1 marc**<br>• prin yw'r esboniad nad yw'r tad am i'r mab fod yno<br>• gallu cyfeirio'n elfennol at ambell ddarn penodol | **1 marc**<br>• dim paragraffau yn y gwaith<br>• cystrawen yn wallus<br>• brawddegau wedi eu saernïo'n debyg<br>• dim trefn i'r gwaith<br>• gwallau sillafu ac atalnodi amlwg |
| 0 | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|
| 5. | Pa mor effeithiol yw'r teitl **Yr Wy** yn eich barn chi?<br>Dylech gyfeirio at ddarnau penodol. | | | |
| | Gellir trafod pwyntiau megis:<br>• Wy yn swper i'r mab cyn gorfod mynd i aros efo'i fodryb<br>• Swper olaf yng Nghapel Celyn<br>• Y tad yn methu peidio rhyfeddu at lendid y siop (cyferbyniad rhwng y gorffennol a'r dyfodol)<br>• Y tad yn ofalus iawn gyda'r wy – symbol o ddechrau newydd efallai? Eironig<br>• Y tad yn gofyn os yw'r tân yn medru berwi'r wy – trosiadol am y tân yng Nghapel Celyn yn pylu, a'r fflam yn diffodd<br>• Tân ar aelwyd – yn drosiad am gartref<br>• Y fam wedi dweud wrth y mab pryd y byddai'r wy yn barod – ei habsenoldeb yn bwysig<br>• Atgof hyfryd o blentyndod a syrthio mewn i'r nant a chael wy i swper bryd hynny<br>• Yr wy yn cael ei lapio mewn hances hardd – pwy oedd y perchennog tybed?<br>• Yr wy yn cynhesu boch y bachgen ar ei daith<br>• Yr wy yn gynnes ond y bachgen yn oeri – trosiadol am 'wres' a bywyd Capel Celyn yn graddol ddiflannu<br>• Wrth bellhau o'i gartref, mae'r wy yn oeri<br>• Y mab yn ceisio cysur yn y 'plisgyn brau' ac yn gweiddi am ei fam<br>• Plisgyn yr wy fel marwor<br>• Gwrthgyferbyniad codi'r wy o'r dŵr ond taflu'r allwedd i'r nant | 5 | 5 | 10 |



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| Band | AA1<br>Deall ac ymateb | AA2<br>Mynegiant a chyfathrebu |
|---|---|---|
| **5** | **5 marc**<br>• dehongli arwyddocâd y teitl yn llawn<br>• cyfeiriadau penodol a chwbl berthnasol | **5 marc**<br>• gwaith trefnus wedi ei gynllunio yn effeithiol<br>• cystrawen yr iaith yn gywir iawn<br>• brawddegau amrywiol gyda mynegiant effeithiol<br>• cydlyniant yn y gwaith<br>• atalnodi a sillafu yn gywir iawn |
| **4** | **4 marc**<br>• dehongli ystyr y teitl yn dda<br>• cyfeiriadau eithaf penodol a pherthnasol | **4 marc**<br>• gwaith trefnus yn dangos ôl cynllunio<br>• cystrawen yr iaith yn gywir ar y cyfan<br>• brawddegau amrywiol gyda mynegiant eglur<br>• gwaith eithaf cydlynus<br>• atalnodi a sillafu yn gywir ar y cyfan |
| **3** | **3 marc**<br>• dehongli ystyr y teitl yn foddhaol<br>• peth cyfeiriadau penodol | **3 marc**<br>• gwaith wedi ei drefnu mewn paragraffau<br>• cystrawen yr iaith yn eithaf cywir<br>• amrywio dechrau brawddegau<br>• dilyniant yn y gwaith<br>• atalnodi a sillafu yn amrywiol ac ansicr |
| **2** | **2 farc**<br>• dechrau dehongli ystyr y teitl<br>• prin yw'r cyfeiriadau penodol | **2 farc**<br>• gwaith mewn paragraffau ond dim trefn<br>• cystrawen yr iaith yn weddol gywir<br>• brawddegau syml i gyfleu syniadau<br>• ymdrech i adeiladu'r gwaith mewn dilyniant<br>• atalnodi a sillafu yn amrywiol ac ansicr |
| **1** | **1 marc**<br>• trafod ystyr y teitl yn syml<br>• gallu cyfeirio'n elfennol at ambell ddarn penodol | **1 marc**<br>• dim paragraffau yn y gwaith<br>• cystrawen yn wallus<br>• brawddegau wedi eu saernïo'n debyg<br>• dim trefn i'r gwaith<br>• gwallau atalnodi a sillafu amlwg |
| **0** | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |



© WJEC CBAC Ltd 2024.

## Adran B – Cymharu Testunau

**Gwobrwyir safon eich iaith yn y cwestiwn isod.**

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|
| 6. | Mae **Yr Wy** a'r darn gan Mabli Siriol Jones yn trafod colli rhywbeth. Cymharwch brofiadau'r tad yn **Yr Wy** gyda phrofiadau Mabli Siriol.<br>Cofiwch gyfeirio at ddarnau penodol o'r **ddau ddarn** yn eich ateb. | | | |
| | Mae'r 2 ddarn yn trafod colli rhywbeth.<br><br>Gellir cyfeirio at agweddau megis:<br>• Colli cartref<br>• Colli cymuned<br>• Colli hunaniaeth<br>• Colli gwreiddiau<br>• Colli hawliau<br>• Colli eiddo<br>• Colli cyfleoedd | 10 | 10 | 20 |

| Yr Wy | Nid yw Cymru ar Werth! |
|---|---|
| • Tymor yr Hydref – colli dail oddi ar y coed<br>• Y calendr – amser yn mynd yn brin<br>• Eistedd ar focs o flaen y tân – dodrefn wedi mynd<br>• Tynnu lluniau yn yr ysgol – diwedd cyfnod<br>• Y tad yn methu ateb ei fab, nac edrych arno<br>• Coed gwlyb – dim storfa goed yn bodoli mwyach<br>• Y caeau'n wag – adeg y flwyddyn neu'r clirio?<br>• Dim goleuadau<br>• Prynu wy o'r siop – yr anifeiliaid wedi mynd<br>• Y tad yn edrych fel rhan o'r tirlun<br>• Y dŵr yn sboncio o'r sosban ac yn taro'r marwor – ceisio diffodd y fflam?<br>• Sain cysurus yr wy yn berwi<br>• Eiddo wedi cael ei bacio<br>• Olion eu heiddo ar y papur wal<br>• Ôl y crafu ar y llawr<br>• Gorfod cerdded 'llwybrau rhywrai eraill' yn eu cartref newydd yn y Bala<br>• Atgofion plentyndod yn dychwelyd<br>• Y nant yn bwysig<br>• Pethau o'i amgylch yn codi ofn arno<br>• Y fynwent a'r beddau agored – colli urddas?<br>• Gweiddi am ei fam<br>• Adfail y capel<br>• Colli cartref | • Hawl i fyw yn eu cymuned gan bawb<br>• Pobl ifanc yn cael trafferth byw yn eu cymuned<br>• Prisiau tai a rhent wedi cynyddu<br>• Bai ar lywodraethau – ystyried tai fel ffordd o wneud elw<br>• Effeithio pobl gyffredin a chymunedau Cymraeg<br>• Effeithio'r Iaith Gymraeg<br>• Sefyllfa'n mynd yn waeth<br>• Effeithio traean y boblogaeth<br>• Y Genhedlaeth Rhent – methu fforddio prynu<br>• Grangetown, Caerdydd – prisiau wedi ffrwydro<br>• Effeithio'r ddinas a chefn gwlad<br>• Pobl ifanc felly'n gorfod gadael eu cymunedau<br>• Problem gymdeithasol – rhai gyda 2 dŷ a rhai heb 1<br>• Angen i'r llywodraeth weithredu/trethu<br>• Rheoli prisiau tai<br>• Angen sicrhau cyfleoedd i bobl ifanc yn eu cymunedau<br>• Cadw ysgolion/gwasanaethau lleol ar agor<br>• Cadw'r iaith yn fyw<br>• Gobaith yn dod o lwyddiannau'r gorffennol |



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| Band | AA1<br>Deall ac ymateb | AA2<br>Mynegiant a chyfathrebu |
|---|---|---|
| 5 | **9-10 marc**<br>• dadansoddi'n dreiddgar y syniad o golled yn y ddau ddarn<br>• cymharu'r ddau ddarn yn hyderus | **9-10 marc**<br>• gwaith trefnus wedi ei gynllunio yn effeithiol<br>• cystrawen yr iaith yn gywir iawn<br>• brawddegau amrywiol gyda mynegiant effeithiol<br>• cydlyniant yn y gwaith<br>• atalnodi a sillafu yn gywir iawn |
| 4 | **7-8 marc**<br>• dadansoddi'n fanwl y syniad o golled yn y ddau ddarn<br>• cymharu'r ddau ddarn yn gyson | **7-8 marc**<br>• gwaith trefnus yn dangos ôl cynllunio<br>• cystrawen yr iaith yn gywir ar y cyfan<br>• brawddegau amrywiol gyda mynegiant eglur<br>• gwaith eithaf cydlynus<br>• atalnodi a sillafu yn gywir ar y cyfan |
| 3 | **5-6 marc**<br>• dadansoddi'r syniad o golled yn y ddau ddarn yn eithaf da<br>• cymharu'r ddau ddarn yn foddhaol | **5-6 marc**<br>• gwaith wedi ei drefnu mewn paragraffau<br>• cystrawen yr iaith yn eithaf cywir<br>• amrywio dechrau brawddegau<br>• dilyniant yn y gwaith<br>• atalnodi a sillafu yn amrywiol ac ansicr |
| 2 | **3-4 marc**<br>• cyfeirio at y syniad o golli tir<br>• cymhariaeth arwynebol o'r ddau ddarn | **3-4 marc**<br>• gwaith mewn paragraffau ond dim trefn<br>• cystrawen yr iaith yn weddol gywir<br>• brawddegau syml i gyfleu syniadau<br>• ymdrech i adeiladu'r gwaith mewn dilyniant<br>• atalnodi a sillafu yn amrywiol ac ansicr |
| 1 | **1-2 farc**<br>• ateb syml sy'n dangos y gallu i dynnu ambell ffaith o'r ddau ddarn<br>• ymgais syml i gymharu'r ddau ddarn. | **1-2 farc**<br>• dim paragraffau yn y gwaith<br>• cystrawen yn wallus<br>• brawddegau wedi eu saernïo'n debyg<br>• dim trefn i'r gwaith<br>• gwallau atalnodi a sillafu amlwg |
| 0 | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |



© WJEC CBAC Ltd 2024.

## Uned 6 – Cyfleu Ystyr

## Arholiad 1 awr 30 munud

### **Adran A – Stori Fer – Torri Arferiad** Gwenno Mair Davies

Arholwr yn unig

**2.** Mae cwestiynau'r adran hon yn seiliedig ar **Torri Arferiad** Gwenno Mair Davies.

Rhoddir marciau am safon eich iaith yng nghwestiynau 2-5.
Atebwch **bob** cwestiwn yn yr adran hon.

| 0 | 1 | Beth yw'r **tri** pheth mae Llŷr yn eu gosod ar fedd Ifan? [3]

.......................................................................................................

.......................................................................................................

.......................................................................................................

.......................................................................................................

.......................................................................................................

.......................................................................................................



© WJEC CBAC Ltd 2024.

**0 2** Trafodwch yr hyn rydyn ni'n ei ddysgu am gymeriad Einir yn rhan gyntaf y stori fer. [7]

Arholwr yn unig

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................



© WJEC CBAC Ltd 2024.

**0 3** Trafodwch pa mor effeithiol yw'r teitl **Torri Arferiad** yn eich barn chi. Dylech gyfeirio at ddarnau penodol. [10]

Arholwr yn unig

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................

..................................................................................................................................



© WJEC CBAC Ltd 2024.

**0 4** Trafodwch y modd mae'r awdur yn sôn am flodau yn y stori. [10]
Dylech gyfeirio at ddarnau penodol.

Arholwr yn unig



© WJEC CBAC Ltd 2024.

Arholwr yn unig

**0 5** Pa mor effeithiol yw diweddglo'r stori yn eich barn chi? [10]
Dylech gyfeirio at ddarnau penodol.

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................

........................................................................................................................



© WJEC CBAC Ltd 2024.

## Adran B – Cymharu Testunau

Darllenwch y **ddau ddarn**.

Mae'r cyntaf yn ddarn o **Torri Arferiad** Gwenno Mair Williams ac mae'r ail yn ddarn o **Tim** allan o'r gyfrol Y **Pump** Elgan Morris a Tomos Jones. Yna fe ddylech ateb y cwestiwn ar y dudalen nesaf sy'n gofyn i chi gymharu'r **ddau ddarn**.

**Darn Darllen 1** – detholiad o **Torri Arferiad** Gwenno Mair Davies

Y gwir oedd, doedd Llŷr erioed wedi prynu blodau, nac erioed wedi taro'i droed dros drothwy'r un siop flodau. Dant y Llew a chlychau'r gog oedd hyd a lled ei wybodaeth betalaidd. Mab fferm, a'i filltir sgwâr oedd ei fyd. Nid y teip i brynu blodau. Doedd o ddim wedi trafferthu prynu cerdyn pen-blwydd na cherdyn Santes Dwynwen heb sôn am flodau i unrhyw gariad erioed. A phob Sul y Mamau roedd ei fam wedi gorfod bodloni ar gerdyn, neu focs o siocled os oedd hi'n lwcus. Yn sicr, chafodd hi ddim blodau ganddo.

Felly pan gamodd Llŷr i'r jyngl amryliw oedd wedi ei wasgu rhwng pedair wal gyfyng y siop, doedd ganddo ddim syniad lle nac am beth y dylai chwilio. Tan yr eiliad hon, roedd Llyr wedi tybio'n syml mai casgliad o betalau wedi eu clymu'n ddel gan goesyn hir gwyrdd oedd blodau, a'r rheiny'n tyfu'n wyllt ar gloddiau ac ar berthi allan yn y wlad. Ni freuddwydiodd erioed fod cymaint o amrywiaeth o blanhigion i'w cael.
"Can I help you?"

Bu bron i Llŷr neidio pan glywodd y geiriau'n cael eu hynganu mewn acen Saesneg grand y tu ôl iddo. Trodd i wynebu perchennog y llais gan deimlo'i hun yn gwrido. Safai gwraig gron o'i flaen, ei dwylo'n pwyso'n ddiog ar floneg ei hystlys, a'i thrwyn wedi ei droi tua'r nef. Roedd ei hwyneb fel petai wedi ei beintio i gyd-fynd a'i siop liwgar, gyda phowdr gwyrdd llachar ar ei hamrannau, cot drwchus o fasgara glas, powdr oren ar ei bochau, a'i gwefusau'n bwll coch o liw gwaed. Edrychodd ar Llŷr yn ddrwgdybus dros ei sbectol gron a orweddai'n gam ar ei thrwyn main. Llyncodd Llŷr ei boer, wrth geisio cyfieithu ei ateb o'r Gymraeg i'r iaith fain yn gyflym yn ei ben.

"I am ... ym... I need some... ym... no, I mean, I. .. ym, want to, ym, buy some flowers."

**Darn Darllen 2** – detholiad o **Tim** o'r gyfrol **Y Pump** Elgan Rhys a Tomos Jones.

(Mae Tim yn dechrau mewn ysgol newydd).

Anadlu mewn a mas.
Mae earplugs yn y bag.
Anadlu.
Mewn a mas.
Mewn.
Mas.
Dwi'n gwbod mai'r peth cynta sy rhaid i fi neud yw mynd i'r Swyddfa erbyn naw o'r gloch a gweud, "Tim Morgan ydw i" a dylen nhw wbod pwy ydw i achos maen nhw'n aros amdana i achos fi yw'r unig berson newydd ym Mlwyddyn 11. Hawdd. Ond mae hi'n chwarter i naw...



© WJEC CBAC Ltd 2024.

Anadlu.

‘Nes i ddim sylweddoli. Dwi’n sylweddoli fel arfer. Ond dwi chwarter awr yn gynnar. A mae Mam yn gwbod cyment dwi’n casáu bod yn rhy gynnar. Dwi isie gweiddi arni. Ond dyw hi ddim yma. Dyw hyn *ddim* yn ddechre da. Achos, be dwi fod i neud nawr? Be dwi fod i neud am y *chwarter awr* nesa?!

Anadlu...

